



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **(Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX)** ar **DYDD IAU, 8FED MAWRTH, 2018** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 6 MAWRTH 2018, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, pan fyddan nhw'n trafod y materion rheoli datblygu ger eu bron, roi ystyriaeth i'r Cynllun Datblygu a, cyn belled â'u bod yn berthnasol, i geisiadau ac i ystyriaethau eraill. Pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau, rhaid i Aelodau sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu'n groes i'r Confensiwn ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018.

5 - 16

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWY GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETH - MATERION CYNLLUNIO

5. RHIF Y CAIS: 17/0239

Codi lefelau'r tir diffaith presennol, i gyfateb i lefel ffordd fynediad y lôn gefn bresennol yn 184 - 186 High Street. Creu cyfleusterau parcio ychwanegol ar gyfer trigolion, Tir Diffaith ar y tir tu ôl i 184-186 High Street, Y Gilfach-goch.

17 - 22

6. RHIF Y CAIS: 17/0787

Y cynnig yw adeiladu 6 stâl rydd newydd, storfa bwyd, ystafell harneisiau, yn ogystal â chreu ardal farchogaeth fach i'w defnyddio at ddibenion marchogol, 3/4 milltir tua'r De-ddwyrain o Donyrefail (tir i'r dwyrain o Oaklands Farm, Pant-y-brad, Tonyrefail, Y Porth.)

23 - 34

7. RHIF Y CAIS: 17/0922

Y datblygiad arfaethedig yw adeiladu annedd amaethyddol dros dro ar dir yr ymgeisydd, Top Yard, Tir Y Gelli Farm, Gelli-Wrgan Road, Aberpennar, Pontypridd.

35 - 54

8. RHIF Y CAIS: 17/1299

Adeiladu siop goffi (Defnydd Dosbarth A3) ac adeilad dau lawr aml-ddefnydd sydd â 2 uned A2/A3/D1 (Sefydliadau Ariannol/Proffesiynol, Bwyd/Diod, Dibreswyl) ar lefel y llawr gwaelod. Bydd hyn yn cynnwys swyddfa uwchben (Defnydd Dosbarth B1), yn ogystal â mynedfeydd cysylltiedig i gerbydau a cherddwyr, maes parcio, gwaith tirweddu a datblygu ategol; gwaith paratoi'r safle, gwaith clirio, gwaith trin, gwaith ailbroffilio a gosod gwasanaethau ac isadeiledd newydd (cafodd disgrifiad wedi'i ddiwygio ei dderbyn ar 10/01/18) Tir ym Mharc Magden, Green Meadow, Llantrisant, Pont-y-clun.

55 - 72

9. RHIF Y CAIS: 17/1338

Adeiladu arfaethedig o ddwy annedd bâr dri llawr, Tir ar bwys 26 Llwynmadoc Street, Pontypridd.

73 - 82

10. RHIF Y CAIS: 17/1374

Trawsnewid yr hen Adeilad Cyfnewid, Aberdâr, gan gynnwys newid defnydd o swyddfeydd (B1) i lety preswyl (C3) er mwyn darparu 7 fflat fforddiadwy, a gwaith newid allanol cysylltiedig, The Exchange, Griffith Street, Aberdâr.

83 - 92

11. RHIF Y CAIS: 17/1376

Gwaith ailwampio a thrawsnewid i Dafarn y Llew Du, Aberdâr, gan gynnwys newid defnydd y lloriau uchaf i ddefnydd preswyl er mwyn darparu 11 fflat fforddiadwy; uned fasnachol (Dosbarth A3 a Dosbarth A1) ar y llawr gwaelod; a gwaith newid mewnol ac allanol cysylltiedig, Tafarn y Llew Du, 104 Wind Street, Aberdâr.

93 - 104

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETH - MATERION CYNLLUNIO

12. RHIF Y CAIS: 17/0909

Estyniad tri llawr ac estyniad ar y trydydd llawr i westy dau lawr ac wyneb allanol newydd, Haveli Restaurant & Bar, Woodhouse Inn, Coedcae Lane, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

105 - 114

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

13. RHIF Y CAIS: 17/0525

Cynllun adfywio arfaethedig wedi'i ddiwygio ar ôl i'r gwaith echdynnu glo ddod i ben yn unol ag Amod 8 o'r caniatâd cynllunio sydd â 'r cyfeirnod 13/0466. Mae hyn yn cynnwys creu llwyfandir ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol, yn unol â Pholisi NSA8 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf (cafodd y cynlluniau safle ac adrannau diwygiedig, manylion

y gwaith draenio a'r cyfresi newydd o luniau eu cyflwyno fis Hydref 2017).

Lleoliad: Safle Glo Agored, Glofa'r Tŵr, Hirwaun.

115 - 128

14. RHIF Y CAIS: 17/1132

Ail-leoli arfaethedig mynedfa i gerbydau a wal newydd wedi'i hail-linio i flaen yr eiddo ar yr A473. The Bungalow, The Square, Llanharan, Pont-y-clun.

129 - 138

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

15. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 05/02/2018 a 16/02/2018.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

Trosolwg o Achosion Gorfodi.

Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

139 - 146

16. BUSNES BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Councillor A Davies-Jones, Y Cynghorydd J Williams,
Y Cynghorydd D Williams and Y Cynghorydd W Owen

Rheolwr Gwasanaethau Datblygu

Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio

Rheolwr Gwasanaethau Datblygu

Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd